Gwasanaeth
Democrataidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

**PANEL CYNLLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **20 Tachwedd 2015**
Siambr y Cyngor, Llangefni

**Yn bresennol:**

**Cyngor Gwynedd**

Y Cyng. Dafydd Meurig
Y Cyng. John Wyn Williams
Y Cyng. Owain Williams
Y Cyng. Gwen Griffith
Y Cyng. Dyfrig Jones
Y Cyng. John Pughe Roberts

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Y Cyng. Richard Dew
Y Cyng. Victor Hughes
Y Cyng. Ann Griffith
Y Cyng. John Griffith
Y Cyng. John Arwel Roberts

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Nia Davies | Rheolwr - UPC ar y Cyd |
| Gareth Jones | Rheolwr Cynllunio, Amgylcheddol a Gwarchod y Cyhoedd (dros dro) (CG) |
| Mike Evans | Uwch Swyddog Cynllunio – UPC ar y Cyd |
| Bob Thomas | Arweinydd Tîm (Tai a Chymunedau) - UPC ar y Cyd |
| Jim Woodcock | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |

Ymddiheuriadau: Cyng. Lewis Davies, Cyng. John Brynmor Hughes

## 1) YMDDIHEURIADAU

Fel yr uchod.

## 2) DATGANIAD O FUDDIANT

Dim

## 3) MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 4) COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015 yn rhai cywir.

## 5) SYLWADAU YN YMWNEUD Â PHOLISÏAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â THECHNOLEG YNNI ADNEWYDDOL YN Y CYNLLUN ADNAU

Atgoffwyd y Panel o'r ystod o astudiaethau a gafwyd eu gwneud cyn datblygu'r polisïau sy'n gysylltiedig â thechnoleg ynni adnewyddol, h.y. yr Asesiadau Capasiti Ynni Adnewyddol ar gyfer y ddwy Sir (Hydref 2012 & Ionawr 2013); Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau (Mawrth 2014); ac asesiad i weld os oedd modd adnabod pellteroedd gwahanu rhwng tai a thyrbinau gwynt neu beilonau. Cadarnhawyd bod sylwadau wedi cael eu derbyn ynglŷn ag agweddau o Bolisi PS7 (Technoleg Adnewyddadwy), Polisi ADN1 (Ynni gwynt ar y tir) a ADN2 (Technoleg ynni adnewyddadwy arall). Cafodd y Panel ei friffio ynglŷn â'r prif faterion a godwyd gan y gwrthwynebwyr. Awgrymwyd bod sail i wneud rhai newidiadau â ffocws neu newidiadau bychan i'r polisïau a'r eglurhad iddynt.

Cyfeiriwyd hefyd at gyhoeddiad canllawiau cenedlaethol diwygiedig ynglŷn ag asesu gallu ardaloedd i allu cyfarch gofynion technegol isadeiledd ynni adnewyddol. Cyfeiriwyd yn benodol at y rhan o'r canllawiau sydd yn rhoi teclyn i allu edrych os ydi ardaloedd yn debygol o fod a'r rhinweddau angenrheidiol i leoli isadeiledd ynni PV solar mewn caeau. Gofynnwyd am gefnogaeth i ymgymryd â'r gwaith asesu er mwyn sicrhau bod sail tystiolaeth y Cynghorau yn gyfredol ac i ddiwygio eglurhad i Bolisi ADN2 i gyfeirio at yr astudiaeth. Cyfeiriwyd hefyd at ddisgwyliadau'r Llywodraeth bod mapiau cyfyngiadau cynlluniau datblygu lleol yn dangos casgliadau gwaith asesu capasiti ardal i ymdopi gyda datblygiad ynni adnewyddol.

**Pwyntiau a godwyd:**

1. Gofynnwyd a oedd yna wybodaeth ar gael am arwynebedd y ffermydd haul sydd wedi cael caniatâd a faint o gyfleoedd cyflogaeth yn lleol oeddynt yn creu. Holwyd hefyd os defnyddiwyd tir amaethyddol o safon dda.
2. Nodwyd bod gwrthwynebydd yn cyfeirio at osod ceblau tanddaear. Awgrymwyd bod angen bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai'r gost o danddaearu ceblau olygu na fyddai datblygiad yn hyfyw yn achos cynigion am dyrbinau unigol ar ffermydd.

3. Nodwyd bod awgrymiad i gyfeirio at ‘cyfleuster twristiaeth’ - tybed os mai mwynderau tai a ddefnyddir gan ymwelwyr a ddylid ystyried yn hytrach nag atyniadau i ymwelwyr, er mwyn osgoi camddealltwriaeth.
4. Nodwyd bod cyfeiriad at effaith ‘sylweddol’ a ‘chronnol’, a gofynnwyd a oedd modd diffinio ‘sylweddol’ a ‘chronnol’.
5. Gofynnwyd am gopi o’r tabl sy’n disgrifio’r gwahanol fathau o dyrbinau.
6. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag addasrwydd neu beidio hyrwyddo tyrbinau gwynt yn yr AHNE, a’r posibilrwydd o adnabod ‘byffer’ i’r ardaloedd yma. Cyfeiriwyd at bosibilrwydd y gallai safle yn yr AHNE fod yn guddiedig tra gallai safle du allan i’r AHNE fod yn amlwg yn y dirwedd. Nodwyd bod cymeriad yr AHNE sydd ym Môn yn wahanol i’r AHNE yng Ngwynedd oherwydd ei fod ar hyd arfordir yr Ynys a bod yr Ynys ar y cyfan lawer mwy gwastad nag ardal Gwynedd. Mae nifer fawr o ymwelwyr yn mynd i Ynys Môn oherwydd ei arfordir bendigedig.
7. Cyfeiriwyd at ffigwr 5.1 yn yr astudiaeth am bellteroedd oddi wrth tai a bod y ffigwr pellter ynddo ar gyfer tyrbinau 100.1 i 150m yn wahanol i’r hyn sydd yn yr eglurder i’r polisi.
8. Nodwyd nad oedd cyfeiriad yn adroddiad y swyddogion i brosiectau hydro.
9. Holwyd os oedd modd cael budd cymunedol yn sgil y datblygiadau.

**Ymatebion:**

1. Cytunwyd i edrych am y wybodaeth a gyrru beth bynnag sydd ar gael i’r Aelod.
2. Nodwyd y sylw.
3. Cytunwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod geirfa polisïau’n eglur a chytunwyd i edrych ar eirfa a fyddai’n sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.
4. Nodwyd nad oedd ateb ‘du a gwyn’ a'i fod yn mynd i ddibynnu ar yr amgylchiadau sy’n berthnasol ar sail achos wrth achos. O ran effaith tyrbinau gwynt cyfeiriwyd at y gwaith a gafodd ei wneud i edrych i mewn i’r posibilrwydd o adnabod pellteroedd penodol rhwng tai a thyrbinau gwynt a pheilonau. Fel rhan o’r gwaith edrychwyd ar sawl penderfyniad apêl a gwelwyd disgrifiadau amrywiol o beth mae arolygwyr yn edrych amdano i gynorthwyo i ddod i gasgliad. Cytunwyd i edrych i mewn i’r posibilrwydd o gynnwys newid a ffocws i’r rhestr termau sydd yn y Cynllun Adnau.
5. Cytunwyd i yrru copi o’r tabl perthnasol i’r Aelod.
6. Nodwyd y drafodaeth am rinweddau’r ddau AHNE. Cyfeiriwyd at farn Cyfoeth Naturiol Cymru adeg paratoi canllawiau cynllunio atodol, h.y. nad oedd hi’n briodol adnabod ardal byffer safonol o gwmpas yr AHNE oherwydd bod rhaid rhoi ystyriaeth i faterion ar sail achos wrth achos. Cyfeiriwyd at yr astudiaeth a edrychodd ar nodweddion y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd i adnabod rhai sydd ar lefel strategol yn debygol o fod yn llai sensitif i dyrbinau gwynt o wahanol faint. Cytunwyd i edrych ar y gwaith yma i weld os oedd modd adnabod ardaloedd du allan i’r AHNE a allai fod yn fwy sensitif i dyrbinau gwynt fesul categori.
7. Cytunwyd y byddai swyddogion yn edrych i mewn i’r mater yma.
8. Nid oedd cyfeiriad at brosiectau hydro oherwydd na dderbyniwyd gwrthwynebiad a oedd yn cyfeirio at y math yma o ddatblygiad.
9. Nodwyd bod budd cymunedol sydd ddim yn rhan o ymrwymiad cynllunio tu hwnt i’r system cynllunio. Mae’n fater i ddarpar ddatblygwyr drafod gyda’r cymunedau.

**Argymhelliad:**

Yn ddarostyngedig i’r pwyntiau uchod bod y Panel yn cefnogi’r cyfeiriad a osodir yn yr adroddiad mewn ymateb i’r sylwadau a gafwyd.

## 6) SYLWADAU YN YMWNEUD Â CHYFARCH Y GALW AM LETY AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR YN Y CYNLLUN

Rhoddwyd adroddiad a oedd yn briffio'r Panel o'r asesiad presennol o'r angen am lety i ddiwallu'r galw Sipsiwn a Theithwyr yn ardal y Cynllun. Cafwyd eglurhad o'r gwahanol fathau o lety: lleiniau preswyl, lleiniau teithiol parhaol a lleiniau aros dros dro. Nodwyd pa fath o ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Atgoffwyd y Panel o ddyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol o ran gwarchod a dynodi safleoedd mewn cynlluniau datblygu lleol. Nodwyd bod astudiaethau newydd ymlaen ar hyn o bryd i fesur yr angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac y bydd rhaid i ni roi sylw i'r canlyniadau cyn cwblhau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Pwysleisiwyd yr angen i adnabod safleoedd mewn cynllun os ydi'r dystiolaeth yn dangos galw am leiniau. Ceir enghreifftiau diweddar o awdurdodau wedi methu gwarchod neu ddynodi safleoedd lle 'roedd y dystiolaeth yn dangos fel arall gyda'r arolygydd yn dweud nad oedd y cynlluniau yn gadarn. Nid yw'n bosib mabwysiadu cynllun os nad ydi o'n gadarn.

Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi bod yn cydweithio gyda'r Gwasanaethau Tai i gynhwyso methodoleg gynhwysfawr i adnabod safleoedd i gyfarch y galw. Dangoswyd y fethodoleg gydag enghreifftiau o sut mae'n cael ei ddefnyddio. Mae'r safleoedd posib hefyd yn cael eu hasesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd.

Cafwyd trosolwg o'r prif faterion a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Awgrymwyd y byddai newidiadau bychan a newidiadau â ffocws i eiriad polisïau ac eglurhad yn sicrhau bod y Cynllun yn gyson a pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

**Pwyntiau a godwyd:**

1. Nodwyd yr angen i gofio bydd angen i roi ystyriaeth i fodolaeth gwahanol deuluoedd.
2. Gofynnwyd beth ydi'r diffiniad o 'Sipsiwn' a 'Theithwyr'.
3. Gofynnwyd beth ydi anghenion ardaloedd eraill ac os ydi bodolaeth safleoedd preswyl yn golygu bydd hynny yn arwain at fwy o alw.
4. Gofynnwyd a ydi aelodau o'r aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr wedi cael cyfle i fynegi barn.
5. Awgrymwyd y byddai defnyddio safleoedd ym mherchnogaeth y Cynghorau yn fwy ymarferol ac yn fwy tebygol o gael eu cyflawni yn yr amserlen sydd mewn golwg.

**Ymatebion:**

1. Nodi'r sylw.
2. Nodwyd bod y rhestr termau ar ddiwedd y Cynllun yn rhoi disgrifiad sy'n gyson a deddfwriaeth.
3. Cytunwyd i gynnwys matrics yn y Papur Testun i ddangos casgliadau arolygon anghenion am lety ar gyfer ardaloedd awdurdodau cynllunio Gogledd Cymru. Nodwyd bod hi'n debygol y bod bodolaeth lleiniau parhaol yn debygol o arwain at alw am ragor o leiniau yn y dyfodol.
4. Nodwyd bod yr holiaduron wedi cael eu gyrru i aelwydydd sy'n byw ar leiniau parhaol ac i aelwydydd sy'n byw mewn tai. Cafwyd gwybodaeth gan y Gwasanaethau Addysg. Mae'n anodd bod yn sicr os cafodd pob aelwyd ei adnabod oherwydd nad ydi pawb yn fodlon datgan eu bod nhw'n Sipsi neu Deithiwr. Mae'r Grŵp Ffocws yn cynnwys cynrychiolydd o'r gymuned sy'n byw yn Llandygai, Bangor.
5. Nodwyd y sylw.

**Argymhelliad:**
Mae'r Panel yn cefnogi'r cyfeiriad a osodir yn yr adroddiad mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd a'r dull o adnabod safleoedd.

## 7) DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Cyfarfod nesaf i'w gynnal am 10yb ar 17 Rhagfyr yn Glyder Fawr, Caernarfon.